# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, H.I. Jones, C. Jones, D. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.E. Williams a D.E. Williams (yn lle G.B. Thomas)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwr A. McPherson mewn perthynas â chais cynllunio S/40262.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
A. Francis, Swyddog Rheoli Datblygu
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu [De]
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu [y De]
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Cyfarfod Rhithwir:- 10.00-11.20yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan  y Cynghorwyr G.B. Thomas ac I.W. Davies.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00112** | **NEWIDIADAU GWEDDLUNIOL, OND DIM NEWID DEFNYDD MATEROL I'R ADEILAD EI HUN, HEN ARCHFARCHNAD CO-OPERATIVE, STRYD Y COLEG, RHYDAMAN, SA18 3AB.** |

**4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a / neu adroddwyd yn y cyfarfod a chyflwyno Ymgymeriad Unochrog wedi'i gwblhau i sicrhau cyfraniad tuag at dai fforddiadwy:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00020** | **CYNNIG I ADEILADU PRESWYLFA AR WAHÂN - TIR SY'N RHAN O 1 BAY VIEW, PWLL, LLANELLI, SA15 4BE**<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn mynegi pryder ynglŷn â mynediad i'r datblygiad a'i agosrwydd at y gyffordd a'r man parcio.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio) i'r materion a godwyd. |

**4.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/40262** | **ADEILADU 7 GAREJ CLOI AR DIR GER STRYD ANN, LLANELLI, SA15 1TE**<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol a oedd yn ailbwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, ac roedd y prif feysydd a berai bryder fel a ganlyn:<br><br>• Clymog Japan nad oedd wedi'i drin.<br><br>• Ymddygiad gwrthgymdeithasol – bydd y garejys (os cânt eu hadeiladu) yn rhoi cyfle i'r unigolion hynny sy'n cyflawni gweithgareddau anghyfreithlon fel delio a defnyddio cyffuriau ymgynnull.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |

**5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20FED HYDREF 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020, gan eu bod yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]